PWYLLGOR PENODIADAU - PRIF SWYDDOG ADNODDAU DYNOL

DYDD LLUN, 8 CHWEFROR 2021

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bowen-Thomson, Hopkins, Weaver a/ac Williams |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Joel Williams fuddiant personol yn Eitem 6 Penodi Prif Swyddog Adnoddau Dynol, gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr.

11 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod Pwyllgor rhestr hir a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.

12 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

13 : PENODI PRIF SWYDDOG AD

Ailymgynnull y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Nick Clark, yr Asesydd Arweiniol Allanol, y canfyddiadau ar gyfer pob un o'r 3 ymgeisydd yn dilyn ymarferion y ganolfan asesu, a'r sgorau yn erbyn y cymwyseddau ymddygiadol ar gyfer y rôl. Ystyriodd y pwyllgor, ar sail y meini prawf hanfodol, y canlyniadau asesu a ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

PENDERFYNWYD -

1. I wahodd ymgeiswyr 15313 a 15893 am gyfweliad;

2. Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y testun sydd wedi'i ddewis ar gyfer y cyflwyniad ac y caniateir uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw;

3. llunio’r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld

14 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen ystyried yr eitem hon.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – Y bydd y Pwyllgor Penodi fel Panel Cyfweld yn ymgynnull am 9.30am ar ddydd Gwener 19 Chwefror 2021, o bell.